

## **Ymchwil i Barodrwydd y Sector**

Mae'r sector cynhyrchu a phrosesu bwyd môr yn sector a gaiff ei reoleiddio a'i fonitro'n helaeth gan yr UE, drwy'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin a deddfwriaeth Diogelwch Bwyd. Mae'n debygol y bydd ymadawiad y DU o'r UE yn cael effaith sylweddol ar fusnesau yn y sector hwn. Caiff y rhan fwyaf o fwyd môr Cymru ei allforio i'r farchnad sengl ac felly bydd tariffau a rhwystrau nad ydynt yn dariffau o ganlyniad i adael yr Undeb Tollau hefyd yn cael effaith sylweddol ar fusnesau sy'n allforio. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi gwneud gwaith i nodi senarios posibl pan fydd y DU yn ymadael â'r UE a sut y gallent effeithio ar y diwydiant. Hefyd, comisiynwyd adroddiad ar y ffordd y bydd gadael yr UE yn effeithio ar drefniadau Rheoli Pysgodfeydd yng Nghymru.

Diben y gwaith ymchwil hwn yw deall pa mor barod fydd y sector o'r diwrnod cyntaf mewn perthynas â'r canlynol:

- Mynediad at ddyfroedd a chwotâu
- Newidiadau rheoliadol ac effaith y Bil Ymadael
- Mynediad i'r farchnad – senarios yn y farchnad sengl a'r undeb tollau
- Effeithiau tariffau a rhwystrau nad ydynt yn dariffau

A darparu 'Cynllun Gweithredu' sy'n cynnwys argymhellion i'r Llywodraeth a chyrrff eraill yn y sector i wella gwybodaeth am yr effeithiau.

Gwnaed y gwaith ymchwil hwn gan Miller Research ac mae bellach wedi'i gwblhau. Mae'r adroddiad yn cael ei baratoi ar gyfer ei gyhoeddi ac ar adeg ysgrifennu (17/09) nid yw'n barod i'w ddsbarthu. Rydym yn gobeithio y gellir ei rannu ag aelodau Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru cyn y cyfarfod ar 01/10.

## **Paratoi'r Diwydiant ar gyfer Ymadael â'r UE**

### **Cefndir**

Mae senario lle y bydd y DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb (senario 'dim cytundeb') yn ganlyniad posibl o hyd os na ellir cytuno ar ganlyniad. Mae dyletswydd arnom fel llywodraeth gyfrifol i baratoi ar gyfer pob posibilrwydd, gan gynnwys 'dim cytundeb', nes gallwn fod yn sicr ynghylch canlyniad y trafodaethau hynny.

**Cam 1:** Diben y prosiect hwn yw pennu cwmpas y goblygiadau i fusnesau sy'n masnachu mewn cynhyrchion bwyd môr rhwng y DU a gwledydd yr UE. Goblygiadau ymarferol a goblygiadau ariannol i'w hystyried. Ariannwyd drwy gyllid Pontio'r UE. Amseriad i'w gwblhau erbyn 01/10/2018.

- Dealltwriaeth ragarweiniol o'r llwybrau masnach presennol
- Mapio arolygfeydd ffin yn erbyn llwybrau o Gymru
- Paratoi rhestrau strategol o gwmnïau Bwyd Môr Cymru a chlodwyr bwyd môr
- Dangos strategaeth ar gyfer cynnwys Diwydiant Bwyd Môr Cymru gyda chanlyniad a ddymunir i'r gwaith ymgysylltu
- Paratoi canllawiau cychwynnol a chynghor ymarferol i'r Diwydiant Bwyd Môr

## Grŵp Cyngori ar Bysgodfeydd Môr Cymru – (01102018) – Eitem 8

- Paratoi amserlen arfaethedig o ymweliadau â Busnesau Bwyd Môr Cymru
- Cynnig y canlyniadau a ddymunir o'r ymweliadau hynny a'r camau nesaf arfaethedig
- Mapio'r goblygiadau posibl o ran costau i Diwydiant Bwyd Môr Cymru
- Mapio'r goblygiadau ymarferol posibl i Diwydiant Bwyd Môr Cymru
- Paratoi'r tasgau a awgrymir sydd eu hangen ar Gam 2 o'r prosiect

**Cam 2:** Ar y cam hwn, nodir camau gweithredu ymarferol y bydd angen i fusnesau eu cymryd er mwyn paratoi i fasnachu fel trydedd wlad os bydd y DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb ar 29 Mawrth 2019. Bydd hyn yn cynnwys drafftio canllawiau i fusnesau ar ran Llywodraeth Cymru ar y camau ymarferol y gallant eu cymryd, a chynnal cyfres o weithdai ledled Cymru ym mis Ionawr 2019 i allforwyr, ar ffurf cymhorthfa. (Ariannwyd drwy gyllid Pontio'r UE, Amseriad: penodi erbyn 01/10/2018 a chyflawni erbyn 29/03/2019)

### Strategaeth Bwyd Môr

Y gweithgareddau allweddol sydd wedi cyfrannu at gyflawni'r strategaeth bwyd môr yw:

- Taith Fasnach Hong Kong gyda Phrosiect Datblygu'r Farchnad Bwyd Môr a ariannwyd gan Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (Adroddiad i'w ddsbarthu yn y cyfarfod)
- Gweithio gyda'r Uned Rheoli Cynlluniau i lunio cynllun costau wedi'i symleiddio o dan Flaenoriaeth Un yr Undeb yng Nghronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop
- Seafood Expo Global – a ffilm hyrwyddo – sydd ar gael mewn saith iaith ac ar gael i bob swyddfa dramor er mwyn hyrwyddo'r sector
- Mae cymorth parhaus ar gael drwy'r Cynllun Cyngorwyr Datblygu Busnes Pysgodfeydd. Nid yw'r galw wedi bod mor uchel â'r hyn a ragwelwyd gan aelodau Grŵp Cyngori ar Bysgodfeydd Môr Cymru mewn cyfarfodydd blaenorol
- Iechyd a diogelwch – ariannu dyfeisiau arnofio personol. Ymrwymiad gan Ysgrifennydd y Cabinet i ariannu 100% o'r sector dal rhywogaethau gwyllt ar gychod cofrestredig. Ymrwymiad gan Ysgrifennydd y Cabinet mewn egwyddor i gefnogi ysgolion ac wythnos Diogelwch Pysgotwyr.

**Bethan Jones  
Medi 2018**